Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i: Uwch-gŵyn yr heddlu – *Sut mae'r heddlu'n ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol pan mae'r dioddefydd o leiafrif ethnig ac o bosibl mewn perygl o gam-drin ar sail anrhydedd.***

Rwy'n croesawu'r adroddiad a'i argymhellion. Mae hwn yn faes plismona pwysig y mae'n rhaid i'r gwasanaeth heddlu ei gael yn iawn. Gan hynny, mae prif ganfyddiadau'r adroddiad o bryder mawr, ac rwy'n cytuno y gall y methiannau hyn effeithio'n negyddol ar hyder y cyhoedd yn yr heddlu yn ogystal â niweidio effeithiolrwydd ymchwiliadau'r heddlu.

Trafododd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, Dr Richard Lewis, a minnau'r uwch-gŵyn yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2023. Hwn yw'r fforwm lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Rwy'n derbyn argymhelliad rhif 4, ac yn cytuno bod yn rhaid i minnau hefyd, fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, chwarae rhan mewn sicrhau bod yr Heddlu'n deall anghenion dioddefwyr cam-drin rhywiol o leiafrifoedd ethnig a allai fod mewn perygl o gam-drin ar sail anrhydedd.

**Argymhelliad 4: *Rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a phartneriaid diogelwch cymunedol gynnwys proses ymgynghori fel rhan o'u gwaith i nodi eu blaenoriaethau. Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sicrhau bod y broses ymgynghori hon yn gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned gyfan cyn comisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr. Yna, dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu weithio gyda'r heddlu lleol, partneriaid diogelu a sefydliadau cymorth arbenigol er mwyn deall anghenion dioddefwyr cam-drin rhywiol o leiafrifoedd ethnig a allai fod mewn perygl o gam-drin ar sail anrhydedd. Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ystyried yr anghenion hyn wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth lleol. Nod hyn yw rhoi hyder i ddioddefwyr adrodd am ddigwyddiadau, teimlo'n ddiogel a grymus, a pharhau'n rhan o unrhyw ymchwiliad ac erlyniad.***

Er mwyn cefnogi datblygu fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, cynhaliodd fy nhîm a minnau ymarfer ymgynghori cyhoeddus cynhwysfawr a oedd yn cynnwys cymysgedd o sesiynau wedi'u hwyluso a oedd yn targedu grwpiau na chaiff eu clywed cymaint, ymgynghoriad uniongyrchol â rhanddeiliaid a phartneriaid, a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Drwy'r sesiynau targedig a hwyluswyd, roeddwn i'n medru sicrhau bod cynrychiolwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar draws yr ardal Heddlu'n cael cyfle i rannu eu barn ynghylch fy mlaenoriaethau plismona. Rwy'n ddiolchgar bod cynrychiolwyr o sawl mosg lleol a Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru, yn ogystal â Rheolwr Ymgyrchoedd Cenedlaethol Mae Bywydau Du o Bwys Cymru, yn bresennol yn ystod y sesiynau hynny.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Yn ogystal â hyn, yn ystod fy ngweithgarwch ymgysylltu rheolaidd, rwy'n cwrdd ag aelodau o'r gymuned a grwpiau cymunedol er mwyn trafod materion lleol a blaenoriaethau plismona lleol. Mae fy nhîm Ymgysylltu'n gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod yr unigolion a'r grwpiau rwy'n cwrdd â nhw'n gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned leol gyfan.

Medraf gadarnhau bod fy Swyddfa'n sicrhau bod asesiad anghenion o ddioddefwyr a phobl sy'n agored i niwed yn cael ei gwblhau bob pedair blynedd, yn unol â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn wir, mae fy Nghyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau'n cydweithio ochr yn ochr â chydweithwyr o swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Gwent a De Cymru ar hyn o bryd er mwyn cynnal asesiad ar y cyd o anghenion dioddefwyr. Mae'n un o ofynion yr asesiad – a nodwyd gan y tri Chomisiynydd cysylltiedig – bod y broses ymgynghori'n gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned gyfan, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin rhywiol o leiafrifoedd ethnig a allai fod mewn perygl o gam-drin ar sail anrhydedd.

Yn ogystal â hyn, rwy'n aelod gweithredol allweddol o'r Bwrdd Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer oedolion a phlant. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad a rennir i ddeall anghenion pob grŵp lleiafrifol a mynd i'r afael â'u hanghenion drwy gomisiynu gwasanaethau, boed hynny drwy drefniadau a gomisiynir ar y cyd neu'n unigol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi argymhellion ar gyfer Prif Gwnstabliaid, ac o'r herwydd, rwyf wedi ceisio sicrwydd gan y Prif Gwnstabl am ymateb yr Heddlu i ddioddefwyr cam-drin rhywiol pan mae'r dioddefydd o gefndir lleiafrif ethnig.

Yr wyf yn ymwybodol y bydd y Prif Gwnstabl yn cyflwyno ei ymateb ei hun i'r argymhellion i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, ond hoffwn roi manylion am ymateb y Prif Gwnstabl isod, er sylw Cymdeithas Genedlaethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sydd, rwy'n gwybod, yn casglu ymatebion Comisiynwyr, ac ar gyfer y cyhoedd a phartïon â diddordeb.

**Argymhelliad 1:** ***Gwelsom fod heddluoedd yn gyffredinol ond yn cynnwys y perygl o gam-drin ar sail anrhydedd yn eu polisïau cam-drin domestig, felly yr ydym yn argymell fod Prif Gwnstabliaid yn diweddaru polisïau cam-drin rhywiol eu heddluoedd er mwyn cynnwys y perygl o gam-drin ar sail anrhydedd.***

- Mae gan Heddlu Dyfed-Powys Bolisi wedi'i deilwra ar gyfer cam-drin ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod, o dan eu blaenoriaeth strategol i *Warchod Pobl sy'n Agored i Niwed*.
- Mae'r Heddlu'n cydnabod y gallai cam-drin ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod hefyd fod yn fath o gam-drin domestig neu drais rhywiol, felly cyfarwyddir swyddogion i ystyried y Polisi cam-drin ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod ochr yn ochr â'r polisi cam-drin domestig a pholisïau cysylltiedig eraill.

**Argymhelliad 2a:** ***Dylai Prif Gwnstabliaid sicrhau bod swyddogion a staff yn ymwybodol o ddemograffeg y cymunedau maen nhw'n eu plismona fel eu bod nhw'n medru deall arlliwiau gwahanol ddiwylliannau a chael amser i ddysgu am y cymunedau hynny.***

- Cynhyrchwyd dau iteriad Trais yn Erbyn Menywod a Merched o broffiliau problemus gan Heddlu Dyfed-Powys yn 2022. Mae'r rhain yn cyfeirio at ethnigrwydd dioddefwyr troseddau "cwmpas" ac wrth ystyried Proffiliau Drwgdybiedigion.
- Mae proffiliau Trais yn Erbyn Menywod a Merched ardaloedd awdurdod lleol hefyd wedi'u cynhyrchu a'u rhannu gyda swyddogion heddlu, staff yr heddlu a phartneriaid i hysbysu eu dealltwriaeth o effaith Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn eu hardaloedd lleol.
- Mae'r proffiliau problemus yn dangos fod adroddiadau gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn adlewyrchu poblogaeth lleiafrifoedd ethnig yr ardal Heddlu.
- Mae'r Prif Gwnstabl yn cydnabod yr angen ar gyfer cynllun ymgysylltu cadarn i hyrwyddo'r berthynas rhwng yr heddlu lleol a grwpiau lleiafrifol er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a chrefyddau gwahanol a hyrwyddo dulliau adrodd a hygyrchedd. Mae hyn wedi'i gynnwys yng Nghynllun Ymgysylltu 2022 yr Heddlu.
- Mae'r Heddlu wedi rhannu gwybodaeth yn y gorffennol am wyliau crefyddol pwysig er mwyn gwella dealltwriaeth a gwybodaeth staff.
- Byddant yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu am ddiwylliannau gwahanol dros y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 2b:** ***Dylai Prif Gwnstabliaid sicrhau bod grwpiau ymgynghorol annibynnol neu grwpiau tebyg yn adlewyrchu'r ddemograffeg hon.***

- Mae ein Grŵp Ymgynghorol Annibynnol - sy'n cael ei redeg ar y cyd gan yr Heddlu a fy Swyddfa, yn fach o ran nifer, â rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli.
- Mae'r Heddlu'n ceisio recriwtio trawstoriad ehangach o'n cymunedau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ehangach.
- Mae'r gwaith hwn, sy'n cael ei arwain gan Dîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu, yn parhau.

**Argymhelliad 2c:** ***Dylai Prif Gwnstabliaid sicrhau bod heddluoedd yn gweithio gyda'r cymunedau lleol maen nhw'n eu plismona er mwyn paratoi gwybodaeth ddiweddar am ddiwylliant a chrefydd a sicrhau bod gan swyddogion fynediad iddi.***

- Mae'r Prif Gwnstabl yn cydnabod bod hyfforddiant amrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o grefydd, diwylliant ac ethnigrwydd yn fwlch ar draws Heddlu Dyfed-Powys.

- Mae peth gwybodaeth ar gael ar dudalen mewnrwyd yr Heddlu, ond mae'n gyfyngedig. Mae'r Prif Gwnstabl yn cydnabod hyn ac yn gofyn am weithredu o fewn y chwe mis nesaf.
- Bydd gan swyddogion a staff sy'n cyflawni rolau arbenigol well gwybodaeth a byddant wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r arfau i gyflawni eu swyddi:
    - Mae Swyddogion Cam-drin Domestig a Goruchwylwyr wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol gan elusen BAWSO;
    - Mae BAWSO wedi rhoi cyflwyniad ar wahân i Dditectif Arolygwyr Diogelu a Thîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu; ac
    - Mae gan staff y Ganolfan Fregusrwydd y wybodaeth i reoli'r peryglon uwch a diogelu mewn achosion o gam-drin ar sail anrhydedd.
- Mae Cydlynydd BAWSO rhanbarthol yr Heddlu – swydd a ariennir gan fy Swyddfa – yn mynd i'r Grŵp Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gadeirir gan y Ditectif Brif Arolygydd ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd/y Ditectif Arolygydd sy'n gyfrifol am gam-drin domestig. Mae hyn wedi datblygu gwybodaeth ymarferol yr Heddlu am y peryglon ychwanegol a wynebir gan ddioddefwyr cam-drin ar sail anrhydedd.
- Bydd y Cydlynydd BAWSO yn gweithio o Ganolfan Fregusrwydd yr Heddlu'n rheolaidd yn 2023, a fydd yn galluogi'r Heddlu i geisio arweiniad ynghylch negeseuon mewnol a nodi cyfleoedd ymgysylltu i wella gwybodaeth swyddogion a staff.
- Mae'r Heddlu'n hyrwyddo cyfeirio dioddefwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i elusen BAWSO yn rheolaidd.
- Mae'r Heddlu'n hyderus o ran ymwybyddiaeth o'r broses gyfeirio hon o fewn y gwasanaethau a gomisiynir gennym, a fydd yn cyfeirio eu defnyddwyr gwasanaeth at elusen BAWSO lle mae hynny'n briodol.
- Ar bob cwrs sy'n ymwneud â throseddau rhywiol, caethwasiaeth modern a cham-drin domestig, mae swyddogion a staff yn cael gwybod am y gwasanaethau a gynigir gan elusen BAWSO.

**Argymhelliad 2d:** ***Dylai Prif Gwnstabliaid sicrhau bod ymchwiliadau'n ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol a allai fod yn berthnasol oherwydd diwylliant a chefndir y dioddefydd neu'r drwgdybyn.***

- Yr wyf wedi fy nghynghori bod yr Heddlu'n derbyn nifer cymharol isel o adroddiadau am gam-drin ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod.
- Pe bai swyddog yn derbyn achos o gam-drin ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod, mae tudalen mewnrwyd yr Heddlu'n cynnig ystorfa o wybodaeth er mwyn sicrhau yr ystyrir cyd-destun crefyddol a diwylliannol fel rhan o'r ymchwiliad a'r ymateb diogelu.

- Mae'r Heddlu'n hyrwyddo Canllawiau'r Coleg Plismona ar gyfer cam-drin ar sail anrhydedd, sy'n mynegi'n glir y peryglon ychwanegol sy'n gysylltiedig â cham-drin mewn rhai gosodiadau diwylliannol a chrefyddol penodol.

**Argymhelliad 3:** ***Fel rhan o strategaeth y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched (2021), mae heddluoedd yn gweithio ar ddeall data trosedd mewn perthynas â cham-drin rhywiol a cham-drin ar sail anrhydedd. Mae'n rhaid i Brif Gwnstabliaid flaenoriaethu'r gwaith hwn.***

- Mae'r Heddlu'n gweithio i ddatblygu argymhellion presennol Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) mewn perthynas ag addasu arferion cofnodi er mwyn cynnwys nodweddion a warchodir.
- Mae'r gwaith hwn yn parhau a'r gobaith yw y bydd mewn grym ar ôl integreiddio system rheoli gwybodaeth NICHE o fis Mai 2023.

Yr wyf wedi fy sicrhau gan y camau y mae'r Heddlu wedi'u cymryd hyd yn hyn, a'r rhai maen nhw'n bwriadu eu cymryd. Mae hyn yn arddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd ystyried cefndir diwylliannol dioddefydd ymosodiad rhywiol, a'r perygl o gam-drin ar sail anrhydedd.

Fodd bynnag, yn amlwg, mae dal gwaith i'w wneud. Byddaf yn parhau i graffu ar gynnydd yr Heddlu yn erbyn yr argymhellion, yn ogystal â'r camau gweithredu a nodir uchod, drwy'r fforymau priodol.